

## Cronfa Gronyn

Pwylseisiwn eto fod *Gronyn* ar gael yn rhad ac am ddim bob wythnos i aelodau eglwysi'r Ofalaeth a phawb sydd am ei dderbyn. Ond ers rhai blynyddoedd yr ydym yn derbyn rhoddion ariannol at ei gyhoeddi oddi wrth unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu.

Gellir rhoi'r cyfraniad mewn amlen i'r Gweinidog os dymunwch (gan nodi 'Gronyn' ar yr amlen).

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â phosibl yn derbyn *Gronyn*. Felly, os gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.

## Cyhoeddiadau

### GOFALAETH

**Nos Fawrth, Chwefror 2:** Pwyllgor Cymanfa Dosbarth Bangor a Bethesda ym Mhendref am 6.30 o'r gloch.

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Chwefror 7:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Ionawr 31:** Gwasanaethir am 10.00 gan Mrs Nerys Griffith ac am 5.00 gan Mr Huw Fôn Roberts. Bydd yr

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Ionawr 31

2.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Hughes

### Chwefror 7

10.00 a.m.—Y Gweinidog

Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch..

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 7:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Chwefror 7:** Gwasanaethir yn Ysgoldy Maesygroes am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

### CARMEL

**Dydd Llun, Chwefror 1:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Chwefror 5:** Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 7:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Chwefror 5:** Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



## BEIBL BYW

## Y mis nesaf - Llanberis

### Ionawr 31

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Euros W Jones

### Chwefror 7

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Huw Fôn Roberts



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 668: Dydd Sul, 31 Ionawr, 2016

## Melys a phur

Ar y gorau, ildio iddyn nhw trwy groen eu dannedd a wna pobl.

Ond mor wahanol y Salmydd, sy'n trysori Cyfraith Dduw ac yn credu mai trwy ei chadw y ceir bywyd dedwydd a da. Ie, deddfau a gorchmynion Duw sy'n felys ac yn bur ac yn lân; a'r rhain hefyd sydd yn ôl y Salmydd yn dwyn goleuni a llawenydd a bywyd i ni. Ai pethau i'w croesawu a'u cofleidio yw gorchmynion Duw i ninnau tybed?

Ond nid yw dweud fod deddfau Duw yn gywir a pherffaith yn golygu ei bod yn hawdd ufuddhau iddyn nhw. Fel arall yn hollol y mae. Mae'n anodd cadw Cyfraith Dduw. Mae'r Salmydd yn deall hynny. Mae'r Cristion hefyd yn deall hynny i'r dim. Ond nid pawb sy'n deall hynny chwaith. Mae llawer o'r farn mai gweiniaid o'r radd flaenaf yw Cristnogion, wedi dewis bywyd rhwydd yn ôl egwyddorion syml o ryw hen oes sy'n hollol amherthnasol i fywyd cymhleth y bydd sydd ohoni.

Fel arall y mae, gan fod ufuddhau i Dduw ac i'w orchmynion yn anodd. Pwy feiddia ddweud ei bod yn hawdd ufuddhau i'r Deg Gorchmyn. A mwy na hynny, pwy fyddai mor ffôl â dweud bod yr eglurhad llawn a geir gan Iesu o ofynion y Deg Gorchmyn yn awgrymu ei bod yn hawdd byw yn ôl ei ddsygeidiaeth a'i esiampl? Ond anodd neu beidio, gorchmynion a gerir gan y Cristion ydynt, ac er ei wendid mae'n ymdrechu i'w cadw yn nerth a gras Duw ei hun.

Yn ôl y sôn, mae'n ddymunol ac yn felys. Mae hefyd yn bur ac yn lân. Mae'n gywir ac yn gyfiawn. Mae'n adfywio ac yn rhoi llawenydd. Mae'n goleuo ac yn gwobrwyo. Mae'n sicr ac yn para am byth. Pa ryfedd y dywedir ei fod yn berffaith? Byddai pobl sy'n llunio'r hysbysebion gorau'n cael trafferth i ddweud yn well na hyn am y pethau y maent yn eu cymeradwyo i ni.

Ond beth sy'n llawenhau'r galon? Beth sy'n felysach na mêl? A beth sy'n fwy dymunol nag aur? Beth all fod crystal â hyn? Beth all roi'r fath bleser? Beth all fod mor werthfawr? Beth sy'n haeddu'r fath ganmoliaeth?

Nid cyfeiriad at unrhyw fwydydd neu nwyddau neu wyliau egsotig geir yma. Geiriau'r Salmydd ydynt, o Salm 19, yn sôn am Gyfraith Dduw. Ie, deddfau a gorchmynion Duw sydd dan sylw. Ac o'u darllen, mae'n amlwg mor arbennig yw golwg y Salmydd ar Gyfraith Dduw, ac mor wahanol yr olwg sydd ganddo i farn cynifer o bobl am orchmynion yr Arglwydd.

I bobl sy'n credu fod pob gorchmyn yn difetha eu hwyl a'u mwynhad, peth i'w difrio yw Cyfraith Dduw. Pethau sy'n cyfyngu ar ryddid ac yn llethu pobl yw gorchmynion, ac o'r herwydd maent i'w gwrthod. Does nemor ddim croeso i neb na dim – yn arbennig Duw! – sy'n dweud wrth bobl sut y dylen nhw fyw. Pethau caled a gorthrymus ydi deddfau o bob math.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

'Yr wyf yn gorwedd ac yn cysgu, ac yna'n deffro am fod yr Arglwydd yn fy nghynnal. Nid ofnwn pe bai myrddiwn o bobl yn ymosod arnaf o bob tu' (Salm 3:5-6).

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Jones, Llangejni. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Llannerchymedd.

Gwasanaethir yn Nhalybont (yn Ysgoldy Maesygroes) am 2.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Miss Violet Williams, 33 Adwy'r Nant, Bethesda yng nghapel Carmel ddydd Mawrth, Ionawr 26 dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Helen Williams oedd yr organydd. Cafwyd gwasanaeth byr ym Mynwent Coetmor wedyn.

Bu farw Violet yn Ysbyty Gwynedd ddydd Mawrth, Ionawr 19, yn 82 mlwydd oed. Roedd yn aelod ffyddlon o'r eglwys yng Ngharmel, a chawsom ei chwmmi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er gwaetha'r ffaith iddi fod yn yr ysbyty fwy nag unwaith oherwydd yr afiechyd a ddaeth arni oddeutu flwyddyn yn ôl.

Roedd yn wraig annwyl iawn, a chanddi lawer o ffrindiau yn ei chynefin ac yn ei gwaith ym Mangor. Roedd parch mawr iddi gan bawb a'i hadnabu. Bu'n chwaer a chwaer yng nghyfraith, yn fodryb a hen fodryb arbennig o ffyddlon i'w theulu, ac estynnwn ein cydymdeimlad o'r newydd i holl aelodau'r teulu yn eu hiraeth a'u colled.

## Pwyllgor Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda

Cynhelir Pwyllgor Cyffredinol Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Bangor a Bethesda yn festri Pendref Bangor am 6.30 o'r gloch nos Fawrth, Chwefror 2. Trafodir Cymanfa 2016. Bydd cyfarfod o Is-bwyllgor y Maes Llafur yn dilyn y pwyllgor hwn. Gwahoddir eglwysi cylch y Gymanfa i sicrhau cynrychiolaeth yn y Pwyllgor.

## Henaduriaeth Arfon

Cafwyd trafodaeth ddiddorol ynghylch ariannu'r Weinidogaeth o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r dyfodol yn y cyfarfod arbennig o Henaduriaeth Arfon a gynhaliwyd yn Seilo Caernarfon nos Lun diwethaf dan arweiniad Llywydd yr Henaduriaeth, Dr Gwyn Lewis, a Thrysorydd Cymdeithasfa'r Gogledd, Mr Idris Hughes, Llanelwy.

## Cyfarfod Chwarter

Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarter Gogledd Arfon nos Fercher diwethaf yn Salem, Llanbedr y Cennin dan arweiniad y Parchg Gareth Edwards, Cadeirydd y Cyfundeb.

Cafwyd trafodaeth dan arweiniad Mr Ifor Glyn Efans, yr Ysgrifennydd, i'n hysgogi i feddwl am genhadaeth yr eglwysi a'r Cyfundeb heddiw ac i'r blynyddoedd sydd i ddod. Cafwyd ymateb da, a bu trafod brwd. Mae'n debyg y deawn yn ôl yn ystod ein cyfarfodydd nesaf at rai o'r awgrymiadau a wnaed yn y drafodaeth.

## Efe

Cyfarfu ymddiriedolwyr Efe a Trobwynt yng nghapel Y Ffôr nos Fawrth diwethaf i gwblhau manylion y cytundeb sydd rhyngom i rannu gwasanaeth swyddog iuenctid hyd at fis Medi 2018.

## Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor Yr Ofalaeth am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Chwefror 17.

Mentrwn gyhoeddi mai hwn fydd y dyddiad pendant ar ôl cael trafferth i gael dyddiad hwylus hyd yma.

## Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl.

Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth.

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos a diolch unwaith eto i Andrew am drefnu a pharatoi'r cyfan ar gyfer y cyfarfod.

## Capel Coch

Mae gwerthiant Capel Coch dal ar y gweill dan ofal yr Henaduriaeth. Mae'r broses gyfreithiol yn fwy ara' deg nag yr oeddem wedi ei ddisgwyl, a hynny yn rhannol oherwydd cymhlethdod sicrhau bod popeth mewn trefn o ran y ffiniau newydd a fydd rhwng y capel a'r festri. Mae gofyn cael popeth yn glir ac yn hwylus cyn cwblhau'r gwerthiant rhag bod unrhyw broblemau yn codi yn y dyfodol.

Wedi i'r gwerthiant gael ei gwblhau, pryd bynnag bydd hynny yn dibynnu ar gael popeth yn iawn yn gyfreithiol, bydd modd i ni fynd ati o ddifrif i benderfynu beth fydd modd ei wneud i'r festri er mwyn ei gwella ymhellach er mwyn hwyluso addoliad a gwaith eglwys Capel Coch.

Edrychwn ymlaen yn y gobraith y bydd y gwerthiant wedi ei gwblhau'n fuan.